"Yr wyf fi wedi dod yn enw fy Nhad, ac nid ydych yn fy nerbyn i; os daw rhywun arall yn ei enw ei hun, fe dderbyniwch hwnnw."
(Ioan 5:43)

Dyma'r Arglwydd Iesu eto yn mynegi pwrpas ei ddyfodiad i'r byd. *Mae wedi dod i'r byd gan gynrychioli'r nef.* Fel y byddwn ni'n cael y fraint o gynrychioli ysgol, capel, tref neu wlad, daeth Iesu Grist 'yn enw'r Tad'. Daeth i'r byd ar gomisiwn nefol, **"Fel y mae'r Tad wedi fy anfon i, yr wyf fi hefyd yn eich anfon chwi"** (Ioan 20:21). Daeth i'r byd i ddatguddio a dangos Duw i ni: **"Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad"** (Ioan 14:9). Yn ôl geiriau'r Arglwydd yn y bennod yma, mae tri phrawf clir ei fod wedi dod o'r nef, sef tystiolaeth ei weithredoedd, tystiolaeth y Tad, a thystiolaeth yr Ysgrythurau.

Tystiolaeth ei weithredoedd

Dyma beth mae'n ei ddweud yn adnod 36: **"oherwydd y gweithredoedd a roes y Tad i mi i'w cyflawni… y rhain sy'n tystiolaethu amdanaf fi mai'r Tad sydd wedi fy anfon."** Ac eto yn Ioan 10:25: **"Y mae'r gweithredoedd hyn yr wyf fi yn eu gwneud yn enw fy Nhad yn tystiolaethu amdanaf fi."**

Pregethu. Un o brif weithredoedd yr Arglwydd Iesu oedd ei bregethu. Roedd ei neges yn llawn gras a gwirionedd. Roedd yn cyhoeddi gras Duw i bechadur trwy ei dynnu ato Fe'i hunan. Roedd yn cyhoeddi'r gwir am natur dyn a'i bechodau, gan roi sylw arbennig i gyflwr ein calonnau. Roedd ei neges yn llawn awdurdod nefol.

Cyflawni arwyddion. Nodwedd arall o weinidogaeth yr Arglwydd oedd ei arwyddion. Byddai'n iacháu'r cleifion, yn bwrw allan gythreuliaid a hyd yn oed yn cyfodi'r marw. Roedd hyn yn dangos fod teyrnas Dduw wedi dod i'n byd. Ac fel yr oedd nerth Duw o'n plaid yn y gweithredoedd hyn, yr oedd o'n plaid i roi iachawdwriaeth i'n henaid hefyd.

Y groes. Y weithred fwyaf a wnaeth yr Arglwydd oedd ei aberthu ei hun ar groes Calfaria yn ein lle a thros ein pechodau. Dyma'r weithred fwyaf i ddangos cariad Duw a'r ffordd i fywyd tragwyddol.

Tystiolaeth y Tad

Dyma adnod 37: "**A'r Tad a'm hanfonodd i, y mae ef ei hun wedi tystiolaethu amdanaf fi."** Daeth llais y Tad y tro cyntaf ym medydd yr Arglwydd Iesu: **"Ti**

yw fy Mab, yr Anwylyd: ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu" (Luc 3:22). Nid yn unig ar gyfer y Mab y daeth y neges hon o'r nef. Roedd y Tad yn cadarnhau ei Fab, ond yn ei gadarnhau yn gyhoeddus gerbron pobl, iddynt wybod mai o'r nef y daeth.

Llefarodd y tad eto yn y Gweddnewidiad: **"Hwn yw fy Mab, yr Etholedig; gwrandewch arno"** (Luc 9:35). Y tro yma, fe ddaeth y neges i Pedr, Iago ac Ioan. Cawsant gipolwg ar ogoniant llachar a disglair y Crist, oedd wedi ei benodi a'i ddewis yn Waredwr ac Arglwydd. Roedd raid iddyn nhw ei ddilyn ac ufuddhau yn llwyr iddo.

Yna daeth llais cyn i'r Arglwydd fynd i'r groes: **"rwyf wedi ei ogoneddu, ac fe'i gogoneddaf eto"** (Ioan 12:28). Daeth y neges yma ar y Pasg cyn i Iesu farw. Roedd Iesu wedi gofyn i'r Tad ogoneddu ei enw, h.y., fod y Tad yn arddangos ei natur ogoneddus a disglair yn gyhoeddus trwy Iesu Grist, er mwyn i bobl roi'r anrhydedd dyledus i'w enw sanctaidd. Mae'r ateb o'r nef yn cadarnhau fod y Mab wedi gogoneddu'r Tad ac y bydd yn gwneud hynny eto trwy'r groes a'r atgyfodiad.

Yr Ysgrythurau

Dywed yr Arglwydd wrth yr Iddewon: **"Yr ydych yn chwilio'r Ysgrythurau oherwydd tybio yr ydych fod ichwi fywyd tragwyddol ynddynt hwy. Ond tystiolaethu amdanaf fi y mae'r rhain" (5:39).** Yn yr Hen Destament byddai'r Iddewon wedi darllen dwy brif adran:

Y Gyfraith

Yn y Gyfraith roedd gorchmynion moesol Duw yn dangos safon Duw, sut i'w garu Ef â'u holl galon, a chymydog fel eu hunain. Roedd y Gyfraith seremoniol yn dangos yr angen i fod yn lân am fod Duw yn lân ac yn sanctaidd. Roedd y Gyfraith sifil yn dweud wrth y bobl sut i fyw gyda'i gilydd o dan lywodraeth Duw. Roedd y Cyfreithiau hyn yn dangos amherffeithrwydd dyn a'i angen am faddeuant a glanhad. Daeth hynny trwy'r aberthau – oedd yn gysgod o Oen Duw fyddai'n tynnu ymaith bechodau'r byd ac yn ein glanhau o bob pechod.

Y proffwydi

Trwy neges y proffwydi, fel llinyn arian, mae'r addewid am Frenin (Eseia 9), am Offeiriad (Salm 110), am Fugail (Eseciel 34,37), am Was dioddefus (Eseia 52-53), a Meseia (Daniel 9).

Mae'r Arglwydd Iesu yn dweud yn blaen mai Ef sydd yn cyflawni'r holl addewidion am y Meseia.

Gwrthododd yr Iddewon yn gyffredinol y Crist. Gadewch i ni beidio â'i wrthod ond i bwyso a mesur yr holl dystiolaeth sy'n dangos mai Ef yw Meseia Duw, Gwaredwr ac Arglwydd y ddynoliaeth. Down ato, derbyniwn Ef, ei geisio a'i garu.